

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 11 Mehefin 2012 am 7.30yh
yn Ystafell Berkley, Penyparc**

Presennol

Cyng. Dilwyn Jenkins (Cadeirydd)

Cyng. Islwyn Iago

Cyng. Lynn Jones

Cyng. Morris Davies (cyrraedd 8.20)

Cyng. Haydn Lewis (Aelod Lleol y Cyngor Sir)
(cyrraedd 8.35)

Cyng. Auriol Williams (Is-Gadeirydd)

Cyng. Huw Jones

Cyng. Des Davies

Cyng. Ann Stokoe (cyrraedd 8.10)

Cyng. Eurig Lloyd

Mrs Hildreth Owen (Clerc)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, Y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i'r cyfarfod. Aethpwyd ymlaen i drafod yr agenda.
- 2. Cyfethol aelod i'r Cyngor:** Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod Mr Eurig Lloyd yn cael ei gyfethol yn aelod o'r Cyngor. Roedd pawb yn gytûn. Gwahoddodd y Clerc Mr Lloyd i ddarllen ac arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd. Croesawyd ef fel Cynghorydd o Gyngor Cymuned y Ferwig.
- 3. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Llinos Price.
- 4. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Islwyn Iago ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion mis Mai yn gywir.
- 5. Datgelu buddiannau personol:** Dim
- 6. Materion yn codi:**
Llwybr o Dolwerdd, Penyparc i ffordd yr A487: Gwybodaeth bod llythyr anfonwyd i'r Adran Briffyrdd wedi ei anfon ymlaen i'r Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai (**gweler eitem 10, rhif 40**). **Mae'r ffens a'r glwyd wedi eu trwsio erbyn hyn.**
Siglen Babanod i'w lleoli yn Chwaraefan y Ferwig: Mae'r Clerc wedi trefnu bod Mr John Morris yn gosod y siglen babanod newydd yn ei lle yn ystod yr wythnos nesaf. **Cyflawnwyd y gwaith ar 6 Mehefin.**
Meinciau yng Ngolygfan y Gwbert: Mae'r Clerc yn dal i chwilio i mewn i berchnogaeth y meinciau.
Highcliff, Gwbert: Yn dilyn cyfres o gwynion am wyneb y Llwybr sydd yn ymwthio allan yn ymyl y tŷ, gofynnwyd i'r Clerc hel gwybodaeth ynglŷn â'r llythyr anfonwyd at y Cyngor Sir ym mis Mai. Cafwyd cadarnhad y byddai'r swyddogion perthnasol yn archwilio'r sefyllfa.
- 7. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais.)

8. Cynllunio

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A120374	Clos y Gwyddil, Ferwig "Modification of 106 Agreement to reduce the number of affordable units from 2 to 1 – application number A061440"	Mae'r Cyngor yn pryderu bod yr Adran Gynllunio wedi gosod rhagamod cymhleth ac o'r herwydd dymunant beidio gosod barn yn yr achos yma.

Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Mehefin 2012

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A120191	Gwynt y Mynydd, Felinwynt. "Extension to dwelling".	Wedi ei ganiatáu

Cyfarfod Safle. Ni chynhelir cyfarfod safle yn ystod y mis.

9. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu:

Wicksteed Leisure Ltd (Siglen babanod i Chwaraefan y Ferwig)	101232	£190.09
Mr John Morris (Gwaith yn Chwaraefan y Ferwig)	101233	£ 72.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Jones bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Derbyniadau: Ad-daliad TAW, 2011-12 £606.95

Materion ariannol eraill: Dim

10. Gohebiaeth:

36	Y Gambo	Llythyr o ddiolch am rodd y Cyngor	Nodwyd
37	Un Llais Cymru	Hysbysiad am Gynhadledd a Chyfarfod Blynnyddol, 13/10/2012 Pontrhydfendigaid.	Nodwyd
38	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Gwybodaeth ynglŷn â Thaith y Fflam Olympaidd.	Nodwyd
39	Cronfa Goffa T. Llew Jones	Gwybodaeth ynglŷn â'r gronfa a hysbysiad o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nos Lun, 25 Mehefin.	Nodwyd
40	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Ymateb i lythyr y Cyngor yn ymwneud â'r llwybr cyhoeddus o Dolwerdd i ffordd yr A487	Gweler eitem 6
41	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol)	Llythyr yn gofyn am gynrychiolydd o'r Cyngor i fod yn bwynt cyswllt o ran materion lleol plant a phobl ifanc.	Y Clerc i fod yn bwynt cyswllt.
42	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Ateb i lythyr y Cyngor yn ymwneud â bin baw cŵn rhwng Nantferwig a'r Clwb Cychod, Patch.	Nodwyd
43	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Sesiwn hyfforddi ar y Côt Ymddygiad yn Penmorfa 27 Mehefin a 4 Gorffennaf.	Y Cadeirydd i fynychu'r cyfarfod ar 4 Gorffennaf.
44	Mr John Morris	Pris am godi barrier diogelwch yn Chwaraefan y Ferwig.	Penderfynwyd gadael hwn ar ffeil am y tro.

11. Materion Eraill / Other Matters.

Balchder Pentrefi: Awgrymiadau:

Bwrdd Gwybodaeth i'w leoli ar safle yn y gymuned.

Gwella'r fynedfa i Hen Ysgol y Ferwig.

Mae'r Is-bwyllgor wedi cynnal cyfarfod ac yn symud ymlaen â'r prosiect. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu ag Un Llais Cymru ynglŷn â chanllawiau o dderbyn rhodd oddi wrth bwyllgor Hen Ysgol y Ferwig fel cyfraniad tuag at ehangu'r fynedfa tu allan i'r ysgol.

Llwybr 73/3 Garnhegogydd/Clwb Golff Aberteifi: Derbyniodd y Cyng. Dilwyn Jenkins gwynion ynglŷn â'r gordyfiant ar y llwybr hwn. Cysylltodd y Clerc gyda'r Cyngor Sir gan siarad â Mr Eifion Jones. Dywedodd Mr Jones taw Mrs Wendy Campion fydd yn delio gyda'r mater wedi iddi ddychwelyd o'i gwyliau ganol Mehefin.

Cadarnhaodd y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y gordyfiant ar y llwybr wedi ei drasio erbyn hyn.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Difrod i hysbyswrdd Penyparc: Derbyniodd y Clerc alwad ffôn oddi wrth y Cyng. Llinos Price yn dweud bod yr hysbyswrdd wedi torri. Cysylltodd y Clerc gyda Mr Dyfed Symmons, a aeth allan i'w drwsio yn syth.

Arwydd "Wynneb dros dro" wedi ei adael ger Fferm y Bigni: Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir yn gofyn iddynt symud hwn.

Arwydd ar Sgwâr Brongwyn: Mae angen trwsio'r arwydd yma a gofynnwyd i'r clerch gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Pobl ddi-gartref yn symud i Geredigion: Cytunodd y Cyng. Haydn Lewis (aelod lleol Cyngor Sir Ceredigion) hel gwybodaeth ynglŷn â'r mewnfudiad.

12. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 9 Gorffennaf 2012 yn Hen Ysgol y Ferwig am 7.30yh.

Gweddill Cyfarfodydd y Cyngor am 2012:

3 Medi (YB) 1 Hydref (F) 5 Tachwedd (YB) 3 Rhagfyr (F).

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 11 June 2012 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc.

Present:

Cllr Dilwyn Jenkins (Chairman)

Cllr Islwyn Iago

Cllr Lyn Jones

Cllr Morris Davies (arr. 8.20)

Cllr Haydn Lewis (Local County Council Member)
(arr. 8.35)

Cllr Auriol Williams (Vice-Chairman)

Cllr Huw Jones

Cllr Des Davies

Cllr Ann Stokoe (arr. 8.10)

Cllr Eurig Lloyd

Mrs Hildreth Owen (Clerk)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the meeting and then proceeded to discuss the Agenda.
- 2. Co-opt Member:**
It was proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Auriol Williams that Mr Eurig Lloyd be co-opted as a member of the Council. All members were in agreement. Mr Lloyd was duly invited to read and sign the Declaration of Acceptance of Office. He was warmly welcomed as Councillor of Ferwig Community Council by the Chairman.
- 3. Apologies for absence:** Cllr Llinos Price
- 4. Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Islwyn Iago and seconded by Cllr Des Davies that the minutes of the May meeting were correct.
- 5. Declaration of personal interests:** None.
- 6. Matters arising:**
Path from Dolwerrdd, Penyparc towards the A487 highway. A response has been received that the Highways department had forwarded the Council's letter to the Environmental Services & Housing department (**see item 10, no. 40**). **The fence and gate have now been repaired.**
Infant's swing-seat to be located at the Ferwig play area. The Clerk has arranged with Mr John Morris to place the seat during the coming week. **The work was completed on 6 June.**
Benches at the Gwbert Viewpoint: The Clerk is continuing her research into ownership of the benches.
Highcliff, Gwbert: Following numerous complaints received regarding the protrusion of the driveway, the Clerk was asked to obtain further information from the County Council regarding this. It was confirmed that the appropriate officers would investigate.
- 7. Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

8. Planning

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Observations</i>
A120374	Clos y Gwyddil, Ferwig "Modification of 106 Agreement to reduce the number of affordable units from 2 to 1 – application number A061440"	The Council is concerned that the Planning Department is setting a complicated precedent and does not wish to comment on this individual case.

County Council Planning Meeting : 13 June 2012.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Applications approved or refused by the County Council:

Application No.	Address	County Council decision
A120191	Gwynt y Mynydd, Felinwynt. "Extension to dwelling".	Approved

Site meeting. No site meeting was held during the month.

9. Financial Matters.

Bills paid:

Wicksteed Leisure Ltd (Cradle swing for the Ferwig play area)	101232	£190.09
Mr John Morris (Labour in the Ferwig play area)	101233	£ 72.00

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Lyn Jones that the above bills be paid.

Receipts: VAT Repayment 2011-12 £606.95

Other financial matters: None.

10. Correspondence:

36	Y Gambo	Letter of thanks for the Council's donation	Noted.
37	One Voice Wales	Notice of 2012 Conference and AGM, 13/10/12, Pontrhydfendigaid	Noted
38	Ceredigion County Council (Highways Department)	Information regarding the Olympic Torch Relay passing through Ceredigion	Noted
39	Cronfa Goffa T. Llew Jones	Information regarding the AGM Monday 25 June.	Noted
40	Ceredigion County Council (Highways Department)	Response to Council's letter regarding the condition of the fence and gateway on the path from Dolwerdd to the A487 at Penyparc.	See Item 6
41	Ceredigion County Council (Department of Education & Community Services)	Letter requesting a representative from the Council to be a point of contact relating to children and young people.	The Clerk to be the point of contact.
42	Ceredigion County Council (Highways Department)	Reply to the Council's letter regarding the placing of a bin for dog mess between Nantyferwig and the Boat Club at Patch.	Noted
43	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Information regarding Training sessions on the Code of Conduct on Wednesday 27 June and Wednesday 4 July.	The Chairman to attend on Wednesday 4 July.
44	Mr John Morris	Quote for erecting a safety barrier at Ferwig Playarea.	It was decided to keep this on file for the time being.

11. Other Matters

Village Renewal Fund: Suggestions:

Information Board to be located in the community.

Improvement to the entrance to Ferwig Old School.

The sub-committee has moved the project on. The Clerk was asked to contact One Voice Wales regarding directives on receiving a donation from "Hen Ysgol y Ferwig" towards widening the entrance at the school.

Pathway 73/3 Garnhebogydd/Cardigan Golf Club: Cllr Dilwyn Jenkins had received complaints regarding the overgrowth on this path. The Clerk contacted Mr Eifion Jones at the County Council who stated that the matter would be dealt with by Mrs Wendy Campion upon her return from holiday mid June. **Cllr Jenkins confirmed that the overgrowth had been cleared**

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Damage to the noticeboard at Penyparc: The Clerk had received a telephone call from Cllr Llinos Price stating that the noticeboard was damaged. The Clerk contacted Mr Dyfed Symmons who immediately repaired the noticeboard.

Sign "Temporary road surface" left near Bigni: The Clerk was asked to request the County Council to remove this sign.

Signpost at Brongwyn Square: The signpost needs to be readjusted and the Clerk was asked to contact the County Council.

Homeless People moving to Ceredigion: Cllr Haydn Lewis (Local member on CCC) agreed to obtain information regarding this issue.

12. Date of next Council Meeting: 9 July, 2012 at 7.30pm at the Ferwig Old School

Remaining Council Meetings 2012:

3 September (YB) 1 October (F) 5 November (YB) 3 December (F).

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting